CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL
YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENRHYN-COCH
AC YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL PENLLWYN

4.00 – 5.00 pm, 5 Gorffennaf 2022

Yn bresennol (Hybrid)	Robert Mills (Cadeirydd), Y Cynghorydd Rhodri Davies, Y Cynghorydd Sarah Hughes, Y Cynghorydd Shan James, Y Cynghorydd Caryl Roberts, Catrin Evans, Rhodri Gibson, Ceris Gruffudd, Catherine Jones, Sian Lloyd-Donnelly, Bryn Shepherd, Catryn Lawrence (Pennaeth)
Clerc:	Wendy Jones (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Bethan Evans a Tom Holt. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriadau uchod.		
2i	**DATGELU BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant dan bob eitem ar yr agenda, neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol, lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod;	
	b)	byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	c)	bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus.	
	PENDERFYNWYD nodi'r uchod.		
2ii	**COFNODION:**		
	Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2022 eu cadarnhau ac oherwydd cyfyngiadau Covid-19, byddent yn cael eu llofnodi yn ddiweddarach.		
2iii	**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**		
	Nid oedd dim materion yn codi.		
2iv	**PWYLLGORAU:**		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	Nid oedd yr un cyfarfod pwyllgor wedi'i gynnal.		
2v	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2021-2022**:		
	Roedd Llywodraeth Cymru yn nodi "bod yn dal disgwyl i Lywodraethwyr Ysgolion baratoi adroddiad blynyddol ond bydd y rheoliadau yn cael eu haddasu gan ofyn am 'ymdrechion rhesymol' o ran gwneud hynny. Ni fydd y gofynion i adrodd ynghylch perfformiad yr ysgol, absenoldeb a thargedau yn yr adroddiad blynyddol, bellach yn gymwys'. Byddai'r adroddiad ar gael yn ystod tymor yr hydref 2022.		Pennaeth Cadeirydd
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Roedd copi o adroddiad y Pennaeth eisoes wedi bod ar gael i'r aelodau. Cafwyd trafodaeth am y canlynol:		
	a)	**Dogfen Hunanwerthuso'r Ysgolion:** Roedd dolen i'r ddogfen wedi'i chynnwys yn yr adroddiad. Nid oedd angen y ddogfen hon mwyach at ddibenion arolygiad Estyn. Serch hynny, argymhellir y dylid cadw'r ddogfen er mwyn medru adrodd ar brosesau o fewn yr ysgolion. Byddai'r Pennaeth yn adolygu'r ddogfen yn ystod tymor yr hydref.	
	b)	**Cynllun Datblygu'r Ysgolion**: Roedd blaenoriaethau'r flwyddyn wedi'u gosod ym mis Medi 2021 ac roedd Efan Williams, yn rhinwedd ei swydd fel Pennaeth dros dro, wedi gweithio ar ddau o'r targedau. Roedd y cynnydd a wnaed wedi'i nodi yn yr adroddiad. Roedd chwe blaenoriaeth ddrafft wedi'u hystyried ar gyfer 2022-2023 a chawsant eu cyflwyno gan y Pennaeth yn ystod y cyfarfod. **Gofynnodd un o'r aelodau paham fod y chwe blaenoriaeth wedi'u dewis.** Esboniodd y Pennaeth y broses a ddefnyddiwyd wrth ddewis y blaenoriaethau. **Gofynnodd un o'r aelodau a oedd y blaenoriaethau wedi'u pennu ar gyfer y flwyddyn gyfan.** Byddai'r cynnydd yn cael ei adolygu ac unwaith y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd, ni fyddai'r maes dan sylw yn flaenoriaeth mwyach.	
	c)	**Data Disgyblion:** Nifer ar y gofrestr - gwanwyn 2022: Ysgol Penrhyn-coch 96 Ysgol Penllwyn 38	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	d)	**ADY**: Byddai'r holl ddisgyblion ADY yn symud draw i'r Cod ADY newydd erbyn diwedd tymor yr haf 2023.	
	e)	**Cynlluniau pontio:** Cafodd y trefniadau pontio ar gyfer eleni eu cyflwyno braidd yn hwyr yn y dydd. Serch hynny, roedd disgyblion Blwyddyn 5 wedi cael y cyfle i fynd i ddiwrnod agored yn Ysgol Penweddig ac Ysgol Penglais, tra bo disgyblion Blwyddyn 6 wedi cael y cyfle i fynd i ysgol o'u dewis am ddau ddiwrnod ym mis Gorffennaf. Gwahoddwyd darpar ddisgyblion y dosbarth derbyn i ddiwrnod pontio ym mis Gorffennaf. Byddent yn cael y cyfle i dreulio diwrnod cyfan yn yr ysgol er mwyn iddynt ddod yn gyfarwydd â'r lle. Roedd yr ysgol yn gobeithio medru parhau â'r cynlluniau ar y cyd â'r grwpiau meithrin er mwyn hwyluso'r broses bontio ymhellach.	
	f)	**Staffio**: Yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a Staffio, cytunwyd ar newidiadau mawr yn y drefn staffio. Roedd y rhieni wedi cael gwybod am y newidiadau ac roedd y newidiadau fel a ganlyn: • Byddai Bethan Evans yn lleihau ei horiau i dri diwrnod yr wythnos a byddai'n cael ei lleoli yn Ysgol Penllwyn. • Byddai Bryn Shepherd yn Ddirprwy Brifathro ar ddydd Llun a dydd Gwener yn absenoldeb Bethan. • Roedd Delyth Davies wedi'i phenodi'n Oruchwylydd Clwb Brecwast ac roedd Richie Norris wedi'i benodi'n Oruchwylydd Amser Cinio. • Roedd Catryn Lawrence wedi dychwelyd i'w swydd yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Roedd yr aelodau'n dymuno diolch i Efan Williams am ei waith yn ystod ei habsenoldeb ac i Bethan Evans am ei chefnogaeth. • Roedd Rhian England wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o salwch. • Roedd Rhian Cory wedi dychwelyd i'r gwaith am bedwar diwrnod yr wythnos yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Byddai Rhian England yn parhau i weithio un diwrnod yr wythnos tan ddiwedd tymor yr haf. Ar ôl hynny, byddai Rhian Cory yn dychwelyd i'w horiau llawn. • Roedd Christine Williams bellach yn hunanynysu am ei bod yn feichiog. Roedd Sioned Evans wedi'i phenodi i gyflenwi'r rôl. • Roedd Fflur Edwards wedi'i phenodi i swydd Cynorthwyydd Addysgu (0.4) yn Ysgol Penrhyn-coch. • Ni fyddai'r Pennaeth, Catryn Lawrence, yn dysgu'r disgyblion dros y flwyddyn nesaf oherwydd y newidiadau mawr yn y Cwricwlwm a'r Cod ADY. Byddai'r newidiadau yn cynnig cyfle i'r staff yn y ddwy ysgol ddatblygu eu gyrfaoedd.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	g)	**Absenoldebau Staff:** Roedd absenoldebau'r staff wedi bod yn uchel oherwydd nifer yr achosion o Covid-19 yn yr ysgolion a'r angen i hunanynysu ar ôl canlyniad positif.	
	h)	**Cyllid:** Rhannwyd y ffurflen Monitro Ariannol yn ystod y cyfarfod. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Byddai arbedion yn cael eu gwneud yn sgil y gostyngiad yn oriau Bethan Evans. • Rhagwelid y byddai gan Ysgol Penrhyn-coch warged o £113,738 erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022-2023. • Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Staffio, cytunwyd i wneud gwaith ar y toiledau yn Ysgol Penrhyn-coch. Roedd yr Awdurdod Lleol wedi cytuno i ariannu'r gwaith ac felly roedd cyllideb wedi'i rhyddhau i wneud gwaith yn y dosbarth Derbyn. **CYTUNWYD** y dylid gwneud y gwaith. • Roedd Cynorthwyydd Addysgu wedi'i benodi ar gontract dim oriau. Cynigiodd y Pennaeth fod y Cynorthwyydd Addysgu yn gwneud gwaith darllen gyda grwpiau o ddisgyblion yn Ysgol Penrhyn-coch am hanner diwrnod yr wythnos yn ystod y tymor cyntaf ar gost o £2,000. **PENDERFYNWYD** cytuno â'r cynnig. • Rhagwelid y byddai gan Ysgol Penllwyn warged o £57,676 erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022-2023. • Roedd £10,000 wedi'i ddyrannu i adeiladu cysgodfan y tu allan i Ddosbarth 2. • Cynigiodd y Pennaeth fod y Cynorthwyydd Addysgu a benodwyd ar gontract dim oriau hefyd yn gwneud gwaith darllen gyda grwpiau o ddisgyblion yn Ysgol Penllwyn am hanner diwrnod yr wythnos ar gost o £2,000. **PENDERFYNWYD** cytuno â'r cynnig. **Gofynnodd un o'r aelodau sut y byddai sgiliau darllen y disgyblion yn cael ei fesur.** Dywedodd y Pennaeth fod y profion cenedlaethol wedi cael eu defnyddio'n flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y system newydd yn darparu'r wybodaeth hon. Byddai prawf safonedig yn cael ei wneud ar ddechrau a diwedd y flwyddyn academaidd er mwyn casglu data. **Capitation** – Roedd Juniper Web Designs wedi rhoi dyfynbris o £1,183 i'r naill ysgol a'r llall er mwyn adeiladu gwefan a fyddai'n darparu gwybodaeth ar y cyd ynghyd a thudalennau unigryw ar gyfer y ddwy ysgol. Byddai ffi flynyddol ar gyfer cynnal a chadw. Byddai staff a disgyblion yn medru cyflwyno eitemau i'w rhoi ar y wefan yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Pennaeth. Byddai'r wefan yn ddwyieithog.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
		PENDERFYNWYD cytuno i brynu'r wefan.	
	i)	**Diogelu**: Nifer yr achosion o fwlio a gofnodwyd - 0	
	j)	**Cynnal a Chadw Adeiladau / Iechyd a Diogelwch:** Roedd y system wresogi yn parhau i beri problemau yn Ysgol Penrhyn-coch. Roedd y mwsogl wedi'i dynnu o do Ysgol Penrhyn-coch oherwydd camgymeriad gan y cwmni. Y gobaith oedd y byddent yn glanhau'r mwsogl yn Ysgol Penllwyn yn ystod gwyliau'r haf. Roedd y cysgodfan y tu allan i ddosbarth 1 a 2 wedi'i chwblhau a diolchodd y Pennaeth i Bethan Evans am drefnu'r gwaith. Roedd angen atgyweirio rhannau o'r ffens o amgylch safle Ysgol Penllwyn ac roedd angen tocio'r clawdd. Roedd angen gwneud gwaith i'r ardal tu fas i Ysgol Penllwyn fel y byddai digon o le i chwarae ym mhob tywydd. Byddai trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r Awdurdod Lleol ynglŷn â chreu man parcio i'r staff yn Ysgol Penllwyn.	
	k)	**Gweithgareddau**: Rhannodd y Pennaeth gyflwyniad PwyntPwer a oedd wedi'i greu gan Bethan Evans i dynnu sylw at nifer y gweithgareddau yr oedd y disgyblion wedi cymryd rhan ynddynt yn ystod y tymor. Nodwyd y pwyntiau canlynol: • Digwyddiadau chwaraeon gan gynnwys pêl-rwyd, hoci, pêl-droed a rygbi. • Roedd Ben Lake, Aelod Seneddol Ceredigion, wedi ysgrifennu at yr Urdd i gefnogi cais y ddwy ysgol i fedru cystadlu fel un tîm. Byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i bob disgybl gymryd rhan mewn digwyddiadau tîm. • Bu'r disgyblion yn llwyddiannus yng nghystadlaethau Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd. • Roedd grŵp o fechgyn wedi cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a diolchodd yr aelodau i Efan Williams am ei waith gyda'r grŵp. • Roedd Marian Haf, artist lleol, wedi cynnal gweithdy yn yr ysgolion. • Roedd disgyblion o Ysgol Penllwyn wedi dangos dafad yn Sioe Aberystwyth. Diolchodd yr aelodau i Bethan Evans a Bryn Shepherd am eu gwaith wrth ddarparu'r cyfle hwn. • Bu disgyblion o Ysgol Penrhyn-coch yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth ddarllen genedlaethol o'r enw *Bookslam*.	
3ii	**TRAFNIDIAETH Y TU ALLAN I'R YSGOL**:		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	Dywedodd y Pennaeth fod y wybodaeth hon wedi'i rhannu â'r rhieni. Cododd un o'r aelodau bryder bod rhai o'r rhieni yn parcio y tu allan i glwydi'r ysgol yn hytrach nag yn y maes parcio. Byddai'r Pennaeth yn atgoffa'r rhieni o'r trefniadau parcio ym mis Medi.	Pennaeth
3iii	**DIFFINIO YSGOLION YN ÔL Y DDARPARIAETH IAITH:**	
	Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ddogfen 'Canllawiau ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' ar ddiwedd 2021. Rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru ddweud wrth rieni a Llywodraeth Cymru erbyn Medi 2022 beth fydd prif iaith y dysgu ym mhob ysgol. Roedd copi o'r canllawiau wedi'i rannu â'r Penaethiaid. Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cytuno y dylai'r ysgol gael ei rhoi yng Nghategori 3.	
4	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**	
	PENDERFYNWYD nodi'r canlynol: Roedd Bryn Shepherd wedi cwblhau'r Hyfforddiant Ymsefydlu Llywodraethwyr a'r Hyfforddiant Data Ysgolion.	
5i	**POLISÏAU - POLISÏAU ANSTATUDOL:**	
	PENDERFYNWYD nodi bod y Polisïau Anstatudol canlynol wedi'u hadolygu a'u bod ar gael ar Teams: Polisi Recriwtio Diogel / Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Polisi Urddas yn y Gwaith Polisi Ymweliadau Addysgol 2018 Polisi Anghenion Gofal Iechyd Polisi Tywydd Garw / Amharu ar Wasanaeth Polisi Caniatâd i fod yn Absennol Polisi Plant sy'n Derbyn Gofal Y Polisi ar gyfer Rheoli Newid Sefydliadol mewn Ysgolion. Polisi Rheoli'r Safle Polisi Atal Eithafiaeth Canllawiau Trawsryweddol ar gyfer Ysgolion Polisi Toiledau'r Ysgol Polisi Rheoli Absenoldeb Salwch Polisi Rhwydweithio Cymdeithasol ac E-ddiogelwch Polisi Rheoli Pwysau Polisi Camddefnyddio Sylweddau Datblygu Cynaliadwy Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	Polisi Chwythu'r Chwiban Polisi Bwyd a Ffitrwydd ar gyfer yr Ysgol gyfan		
5ii	**Polisi Enghreifftiol Cyflogau Athrawon**		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai'r Polisi Cyflogau Athrawon yn cael ei fabwysiadu drwy e-bost.		Swyddog Cefnogi Llywodra ethwyr
6	**GOHEBIAETH / MATERION PERSONOL:**		
	a)	**Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol:** Croesawodd yr aelodau'r Cynghorydd Caryl Roberts i'w chyfarfod cyntaf yn dilyn ei llwyddiant yn Etholiadau'r Cyngor Sir. Roedd yr aelodau yn dymuno diolch i Dai Mason am gefnogi'r ysgolion dros nifer o flynyddoedd ac am fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol. Roedd y Pennaeth wedi anfon cerdyn ar ran yr ysgolion. Byddai'r Cadeirydd yn anfon cerdyn oddi wrth y Corff Llywodraethol.	Cadeiryd d
7	**UNRHYW FATER ARALL A GYFLWYNWYD O FLAEN LLAW:**		
	a)	**Cyfarfodydd y Corff Llywodraethol:** Gofynnodd un o'r aelodau sut y byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth, unwaith y byddai'r prosesau hunanwerthuso wedi'u hadolygu y byddai trefniadau yn cael eu gwneud i'r aelodau ymweld â'r ysgol.	
	b)	**Arwydd Ysgol Penllwyn:** Roedd cystadleuaeth wedi'i chynnal i ddisgyblion Ysgol Penllwyn ddylunio arwydd i'w osod ger y fynedfa ar y brif ffordd. Roedd y Cyngor Cymuned wedi dewis dau enillydd a byddai'r arwyddion yn cael eu hargraffu a'u rhoi yn eu lle cyn gynted ag y bo modd.	RD SH
	c)	**Yr Eisteddfod Genedlaethol:** Byddai'r disgyblion yn cymryd rhan yn y gwaith o addurno'r pentrefi wrth groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Geredigion. Byddai'r disgyblion hefyd yn canu ar y llwyfan perfformio yn yr Eisteddfod ar 2 Awst.	
	d)	**Prydau Ysgol am Ddim:** Gofynnodd un o'r aelodau sut y byddai'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei gyfrifo ar ôl i Brydau Ysgol am Ddim gael eu cynnig i bob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen o fis Medi 2022 ymlaen. Roedd holiadur wedi'i anfon at rieni disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen i ofyn a fyddent yn cymryd prydau ysgol am ddim ym mis Medi. Gwnaed hyn er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael.	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	e)	**Aelodaeth y Corff Llywodraethol:** Gofynnodd y Cadeirydd pryd y byddai cyfnod yr aelodau fel Llywodraethwyr yn dod i ben. Cadarnhaodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr y byddai cyfnod rhan fwyaf yr aelodau yn eu swydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2023.	
8	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**		
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod y Corff Llywodraethol Llawn nesaf yn cael ei gynnal ar 1 Rhagfyr 2022.		

WJ
19/7/2022